

Datganiad Plaid Cymru – Ymchwiliad i Amrywiaeth ym Maes Llywodraeth

Leol

Y sefyllfa hanesyddol a phresennol

1. Mae Plaid Cymru yn benderfynol o wella'n amrywiaeth o blith ein haelodau etholedig. Fel Plaid, rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth yn gryfder: mae'n helpu i ni ymgysylltu â'r cyhoedd yn nhermau sy'n berthnasol iddyn nhw a mae'n ein helpu ni i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu pryderon a dyheadau pobl Cymru'n well.
2. Rydym yn cydnabod nad ydy'n aelodau etholedig yn gynrychioladol o boblogaeth Cymru o ran hunaniaeth ethnig, rhywedd nac anabledd. Nid oes gennym ddata ddibynadwy o ran ymgeisyddiaeth pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, nac ychwaith o ran ymgeisyddiaeth pobl anabl, neu bobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thraws.
3. Mae gennym 199 o gynghorwyr sir, a channoedd o gynghorwyr tref a chymuned. Gan bod diffyg gwybodaeth o ran cynghorwyr tref a chymuned, o hyn ymlaen byddwn ond yn ystyried cynghorwyr sir.
4. Mae'r canran o gynghorwyr sir sy'n fenywaidd, gwrywaidd, ac o leiafrif ethnig, yn ymddangos yn y Tabl islaw.

Cynghorwyr	Gwyn	Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
Benywaidd	51	1
Gwrywaidd	146	1
Cyfanswm	197	2

5. Yn rhannol, gellid esbonio'r diffyg cynghorwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig arall wrth nodi dosbarthiad cynghorwyr y Blaid dros y wlad. Hynny yw, mae'r rhan helaeth o gynghorwyr Plaid Cymru wedi'u hethol mewn wardiau lle mae canran y boblogaeth â hunaniaeth ethnig lleiafrifol yn isel. Serch hynny, cydnabyddwn y gallai, ac y dylai, ein cynrychiolaeth o'r cymunedau hynny fod yn well ac rydym wedi ymrywmo i gymryd camau cadarnahol i gynyddu nifer o ymgeiswyr sy'n ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig mewn etholiadau yn y dyfodol.
6. Yn amlwg, nid yw'r un rhesymeg yn ddilys dros ein tangynrychiolaeth o gynghorwyr benywaidd.
7. Mae'r canran o ymgeiswyr a chynghorwyr sy'n fenywaidd yn y tri etholiad diwethaf wedi'i nodi yn y Tablau islaw.

Etholiad	Ymgeiswyr (cyfanswm)	Nifer o fenywod	Canran o fenywod (%)	Canran o fenywod (pob Plaid)
2008 ¹	494	129	26	27
2012 ²	552	142	26	28
2017	584	171	29	dim data

¹ <https://www.lgiu.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Does-Local-Government-Work-for-Women-Interim-Report-April-2017-Fawcett-Society.pdf> t. 22

² ibid

Etholiad	Cynghorwyr (cyfanswm)	Nifer o fenywod	Canran o fenywod (%)	Canran o fenywod (pob Plaid)
2008 ³	193	52	27	27
2012 ⁴	159	41	26	27
2017	199	52	26	28 ⁵

8. Mae tangynrychiolaeth Plaid Cymru o ran menywod ar lefel llywodraeth leol, ysywaeth, yn debyg iawn i dangynrychiolaeth Cymru benbaladr.
9. Fe'i gwelir bod y canran o fenywod a etholir yn debyg i'r canran sy'n sefyll mewn etholiadau cyngor. Yr her bennaf, mae'n debyg, ydy cynyddu'r nifer o fenywod sy'n sefyll mewn etholiadau lleol.
10. Mynychodd Prif Weithredwr y Blaid seminar y Gymdeithas Fawcett ar 15 Mehefin 2017: "A yw llywodraeth leol yn gweithio ar gyfer merched".
11. Mae Prif Weithredwr y Blaid hefyd wedi cael nifer o drafodaethau gyda [REDACTED], Pennaeth yTîm Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Ym mis Chwefror 2017, anfonwyd fanylion ein Adran Menywod a Chymdeithas y Cynghorwyr at dîm Mr [REDACTED]. Y bwriad oedd i sefydlu rhwydweithiau trawsbleidiol i annog a mentora cynghorwyr newydd, gyda ffocws arbennig ar fenywod a chynghorwyr o leiafrifoedd ethnig. Nid yw'n amlwg a oes cynnydd wedi bod yn hyn o beth.

Camau nesaf

12. Gan fod yr etholiadau lleol nesaf yn 2022, mae Plaid Cymru yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar wella'n cynrychiolaeth o fenywod fel ymgeiswyr, a, maes o law, aelodau etholedig i Senedd Cymru.
13. Mae'r gwaith yma wedi dechrau. Newidiwyd rheolau sefydlog y Blaid i sicrhau ymgeisyddiaeth gyfartal mewn etholaethau targed (gweler atodiad 2) yn ein Cynhadledd Flynyddol fis Hydref eleni.
14. Gobeithir, wrth i aelodau Plaid Cymru weld mwy o fenywod mewn rôl uchel-ei-phroffil (megis ymgeisyddion Senedd Cymru), y bydd yr awydd i sefyll fel cynghorwyr yn cynyddu.
15. Mae'r Gymdeithas Fawcett wedi holi menywod am eu rhesymau dros sefyll fel ymgeisyddion mewn llywodraeth leol, a'u cefndir. Datganodd dros hanner yr ymatebion fod menywod wedi ymwneud â sefydliadau cymunedol, elusennol neu grefyddol cyn iddynt sefyll.
16. Mae'n debygol bod gwaith i'w wneud gan Blaid Cymru i ddenu menywod sy'n weithgar yn eu cymunedau i ystyried sefyll dros y Blaid mewn etholiadau lleol.

³ <https://www.lgiu.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Does-Local-Government-Work-for-Women-Interim-Report-April-2017-Fawcett-Society.pdf> t. 22

⁴ ibid

⁵ <https://www.fawcettsociety.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=0de4f7f0-d1a0-4e63-94c7-5e69081caa5f> t. 22

17. Mae 38% o gynghorwyr benywaidd yng ngwaith ymchwil y Gymdeithas Fawcett⁶ wedi dioddef sylwadau rhywedd sarhaus *pan yn ymwneud â'u plaid yn lleol*. A mae 10% o gynghorwyr benywaidd yn adrodd dioddef aflonyddu rhywiol pan yn ymwneud â'u plaid yn lleol. Mae'n bwysig iawn i Blaid Cymru ein bod yn sicrhau gofod goddefgar, caredig i'n holl aelodau wrth iddynt ymwneud â'r Blaid yn lleol. Mae Plaid Cymru wedi mabwysiadu newidiadau i'r rheolau sefydlog sy'n galluogi menywod i gwyno am ymddygiad "*sydd yn cyfateb i gamwahaniaethu tuag at unrhyw unigolyn ar sail unrhyw rai o'r priodweddau canlynol: oedran, rhyw, anabledd, hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, crefydd, cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth neu statws priodasol*"; ymddygiad "*sydd yn cynnwys defnyddio neu fygwth trais, bwlio neu aflonyddu*", neu "*Ymddygiad yng nghyfarfodydd y Blaid neu yn erbyn aelodau'r Blaid yn ystod digwyddiadau a drefnwyd gan y Blaid neu mewn gohebiaeth yn ymdrin â materion y Blaid sydd yn codi dychryn, aflonyddu neu sy'n achosi loes neu ddadrithiad ymysg aelodau a/neu staff y Blaid*".
18. Mae traean o gynghorwyr benywaidd hefyd yn datgan eu bod yn dioddef sylwadau rhywedd sarhaus pan fyddant yn ymwneud â'u gwaith tu fewn neu yng nghyrion Siambr y Cyngor, a deg y cant wedi dioddef aflonyddu rhywiol gan eu cyd-cynghorwyr. Rydym yn awyddus i sicrhau bod cynghorwyr Plaid Cymru ddim yn cymryd rhan yn y math yma o ymddygiad, a byddwn yn darparu hyfforddiant i ymgeiswyr i'r perwyl hwn yn arwain at etholiadau 2022. Mae adroddiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu trin yn ddifrifol iawn gan y Blaid.
19. Cydnabyddwn hefyd bod rhwystrau strwythurol sywleddol yn atal menywod a rheiny o grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli rhag cymryd rhan mewn llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys materion megis amseroedd cyfarfodydd cyngor, diffyg ystyriaeth o anghenion y rhai sy'n rhieni neu'n ofalwyr, rhwystrau ariannol a chanfyddiadau o ddiwylliant mewnol cynghorau sir. Credwn fod cyfrifoldeb ar gynghorau sir, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a phob plaid wleidyddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol hyn.
20. Mae dau draean o gynghorwyr benywaidd yn credu y byddai mentora wedi bod o fudd iddynt ddod yn gynghorwyr. Mae Cynhadledd Plaid Cymru wedi ymrwymo'r Blaid i gynllun mentora – yn y man cyntaf, yn canolbwyntio ar etholiadau 2021 i Senedd Cymru (gweler atodiad 2).
21. O ystyried pwynt 9. uchod ymhellach, un o broblemau pennaf Plaid Cymru yw i gael ymgeiswyr o *gwbl*, boed yn fenyw neu wryw. Mae 1,271 o seddi cyngor yng Nghymru, a mae Plaid Cymru oddeutu 700 o ymgeiswyr yn brin o'r cyfanswm.
22. Dydy rheolau sefydlog presennol y Blaid ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol o fenywod yn sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol, nac o gael eu hethol. Mae'n rhesymegol felly i ofyn a fydde newid trefniadaeth yn llywodraeth leol yn fodd i sicrhau gwell gynrychiolaeth o ran rhyw mewn llywodraeth leol. Byddaf yn gofyn i Bwyllgor Gwaith y Blaid ystyried y mater yma yn eu cyfarfod fis Ionawr 2019; mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a Chyngor Cenedlaethol y Blaid i newid y rheolau sefydlog.

DIWEDD

⁶ <https://www.lgiu.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Does-Local-Government-Work-for-Women-Interim-Report-April-2017-Fawcett-Society.pdf> t. 22

Atodiad 1

Cynghorwyr Plaid Cymru fesul awdurdod lleol; 18 Hydref 2018

Awdurdod lleol	Dynion	Menywod	Du, Asiaidd neu o leiafrif ethnig (tybiedig)
Abertawe	-	-	-
Blaenau Gwent	-	-	-
Bro Morgannwg	3	1	-
Caerdydd	1	1	1
Caerfyrddin	26	11	-
Caerffili	15	3	-
Casnewydd	-	-	-
Castell Nedd Port Talbot	10	5	-
Ceredigion	17	3	-
Conwy	7	1	1
Dinbych	8	1	-
Fflint	-	-	-
Gwynedd	30	11	-
Merthyr Tudful	-	-	-
Mynwy	-	-	-
Penfro	6	-	-
Penybont-ar-Ogwr	3	-	-
Powys	2	-	-
Rhondda Cynon Taf	7	10	-
Torfaen	-	-	-
Wrecsam	1	2	-
Ynys Môn	11	3	-
Cyfanswm	147	52	2
Canran (%)	73.9	26.1	1.0

Atodiad 2

Geiriad cynnig a basiwyd gan Gynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2018

Cynnig i'r Gynhadledd Flynyddol 2018: Cynrychiolaeth Merched

Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol

Noda'r Gynhadledd:

Y cynnig a basiwyd yng Nghynhadledd Genedlaethol 2017, *Cynrychiolaeth Gyfartal*, yn benodol yr agweddau sy'n ymwneud â chynyddu cynrychiolaeth menywod mewn etholiadau y mae'r Blaid yn eu sefyll ynddynt.

Noda'r Gynhadledd ymhellach:

Camau dilynol gan y Blaid i annog mwy o gynrychiolaeth gan ferched, gan gynnwys trafodaethau polisi yng Nghynhadledd Wanwyn 2018.

Penderfyna'r Gynhadledd i gymryd camau pellach i gynyddu cynrychiolaeth menywod mewn etholiadau cenedlaethol, gan gynnwys:

1. Creu swydd newydd ar y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol o Gyfarwyddydd Cyfleoedd Cyfartal
2. Gosod targed o ddyblu nifer y menywod ar y Gofrestr Genedlaethol
 - a. Penodi'r Cyfarwyddydd Cyfleoedd Cyfartal (neu, os nad oes Cyfarwyddydd Cyfleoedd Cyfartal, aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith) i arwain y gwaith hwn
 - b. Gofyn i bob etholaeth nodi 3 menyw y gellir gofyn iddynt fynd ar y Gofrestr Genedlaethol
3. Gweithredu rhaglen hyfforddi gan Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol, tebyg i'r un sy'n cael ei rhedeg eisoes gan Grŵp San Steffan. Caiff menywod ac aelodau o unrhyw leiafrifoedd ethnig a dangynrychiolir eu targedu yn benodol a chael cynnig lle.
4. Gweithredu rhaglen fentora gan bawb yng Ngrŵp y Cynulliad, gan sicrhau fod pob AC yn mentora o leiaf ddau aelod (un ohonynt yn fenyw) o'r Gofrestr Genedlaethol a rhoi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith ar y gweithgareddau a wnaed ganddynt.
5. Cynnal adolygiad o'r broses ymgeisio i fod ar y Gofrestr Genedlaethol, gan ofyn yn benodol i fenywod ar y gofrestr am eu profiad o ymgeisio. Hefyd, i holi menywod sydd wedi gofyn am gael eu tynnu oddi ar y gofrestr pam y gwnaethant y penderfyniad hwnnw ac am eu hawgrymiadau ynghylch unrhyw welliannau posib.
6. Mabwysiadu polisi o efeillio Etholaethau Targed, neu Ardaloedd Heddlu yn achos etholiadau Comisinwyr Heddlu a Throsedd, fel lle bo un yn dewis menyw fod yn rhaid i'r llall ddewis dyn a vice versa.

Penderfyna'r Gynhadledd wneud y newidiadau isod i'r Rheolau Sefydlog er mwyn gweithredu polisi gefeillio:

Dileu paragraff 2.3 o'r *Rheolau Sefydlog am Ddethol Ymgeiswyr i Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, San Steffan, Senedd Ewrop ac fel Comisiynwyr Heddlu a Throsedd* a rhoi yn ei le:

"2.3.1 Bydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, ar argymhelliad y Pwyllgor Ymgyrchoedd Cenedlaethol neu yn absenoldeb Pwyllgor Ymgyrchoedd Cenedlaethol, y Cyfarwyddydd Etholiadau, yn pennu pa etholaethau fydd yn cael eu hystyried yn Etholaethau Targed Cynulliad.

2.3.2 Ar argymhelliad y Pwyllgor Ymgyrchoedd Cenedlaethol neu yn absenoldeb Pwyllgor Ymgyrchoedd Cenedlaethol, y Cyfarwyddydd Etholiadau, bydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn gefeillio etholaethau targed, fel y bydd nifer cyfartal o ymgeiswyr gwryw a benyw. Bydd y Pwyllgor Ymgyrchoedd Cenedlaethol, wrth wneud ei argymhelliad a chyhyd ag y mae'n bosib, yn gefeillio etholaethau o fewn yr un Rhanbarth Etholiadol y Cynulliad ac yn ystyried barn yr etholaethau lleol.

2.3.3 Bydd unrhyw etholaeth a enillwyd yn yr etholiad blaenorol yn cael ei heithrio o'r broses efeillio.

2.3.4 Unwaith i'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol gwblhau'r broses o ddethol Etholaethau Targed a'r Broses Efeillio, bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu pob aelod o'r Gofrestr Genedlaethol, Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Etholaethau ynglŷn â pha etholaethau sydd i'w Gefeillio.

2.3.5 Pan fo Etholaeth wedi agor enwebiadau, bydd y Prif Weithredwr, fel rhan o'r broses o hysbysu aelodau o'r Gofrestr Genedlaethol (Rheol Sefydlog 1.11) hefyd yn datgan a yw'r etholaeth yn Etholaeth Darged ai peidio ac yn nodi a ddylai ymgeiswyr fod yn wryw ynteu'n fenyw.

2.3.6 Bydd gan y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yr hawl i wneud unrhyw amrywiadau i'r rheolau hyn a fydd yn ei farn ef yn angenrheidiol i hwyluso'r broses.

2.3.7 Yn achos etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, disodlir y gair Etholaeth (neu Etholaethau) ar gyfer Ardal (neu Ardaloedd) Heddlu yn rheolau sefydlog 2.3.1 – 2.3.6 uchod”